# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 20 Mehefin 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

## 146(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3 Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd- Y Rhaglen Cartrefi Clyd

(30 munud)

### 4 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

(30 munud)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 5 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol: Mesurau cenedlaethol i gryfhau gofal cymdeithasol

(30 munud)

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Sicrhau mwy o fanteision i fyd natur, yr amgylchedd a chymunedau drwy systemau draenio cynaliadwy – cyhoeddi adolygiad Llywodraeth Cymru a ffordd ymlaen - GOHIRIWYD

(0 munud)

## 7 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant: Lansio 111 dewis 2 ar gyfer iechyd meddwl brys

(30 munud)

## 8 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol: Diwrnod y Lluoedd Arfog

(30 munud)

## 9 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol

(15 munud)

**NDM8297** Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Tachwedd 2022, 3 Ionawr 2023 a 9 Mawrth 2023 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol – Senedd y DU *(Saesneg yn unig)*

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (Memorandwm a Memorandwm Rhif 2)

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (Memorandwm Rhif 3)

Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig (Memorandwm a Memorandwm Rhif 2)

Llythyr gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at y Pwyllgor Busnes

## 10 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Mudo Anghyfreithlon

(15 munud)

**NDM8296** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Mudo Anghyfreithlon i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Mawrth 2023 a 26 Mai 2023, yn y drefn honno, yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Gellir gweld copi o'r Bil ar wefan Senedd y DU:

Bil Mudo Anghyfreithlon – Senedd y DU *(Saesneg yn unig)*

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 11 Cyfnod Adrodd y Bil Amaethyddiaeth (Cymru)

(30 munud)

**Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, caiff y gwelliannau eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn ymddangos yn y Bil.**

**Dogfennau Ategol**

Bil Amaethyddiaeth (Cymru), fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 3

Memorandwm Esboniadol Diwygiedig, yn dilyn Cyfnod 3

Hysbysiad ynghylch Gwelliannau

## 12 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 12.45, Dydd Mercher, 21 Mehefin 2023

## Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 15/06/2023 i'w hateb ar 20/06/2023

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

### PRIF WEINIDOG

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

1 OQ59722 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog merched i mewn i addysg a gyrfaoedd STEM?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

2 OQ59694 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn annog ysgolion i ddod yn fwy ecogyfeillgar?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

3 OQ59687 **(e)**

Pa fesurau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau anghydraddoldebau iechyd a marwolaeth?

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

4 OQ59705 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r effaith y bydd yr argyfwng bysiau cyhoeddus presennol yn ei chael ar ddarpariaethau'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

5 OQ59676 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella'r sector tai rhent preifat am weddill tymor y Senedd hon?

**Sam Rowlands** *Gogledd Cymru*

6 OQ59723 **(e)**

Beth yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer tai yng Ngogledd Cymru?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

7 OQ59675 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi goroeswyr strôc?

8 **Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

## OQ59677 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau gyda Qatar Airways ynghylch dychwelyd i Faes Awyr Caerdydd?

9 **Gareth Davies** *Dyffryn Clwyd*

## OQ59713 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am strategaeth Llywodraeth Cymru i leihau amseroedd aros yn Ysbyty Glan Clwyd?

10 **Joel James** *Canol De Cymru*

## OQ59709 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i warchod poblogaethau draenogod?

11 **Ken Skates** *De Clwyd*

## OQ59674 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith dyledion cinio ysgol ar ddisgyblion?

12 **Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

## OQ59685 **(e)**

Pa gamau brys y mae'r Prif Weinidog yn eu cymryd i wrthdroi rhwystrau i adeiladu tai yng Nghymru?